# CYNGOR TREF DOLGELLAU

**Cofnodion Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 3 Mawrth 2026, yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 6.45 y.h.**

**YN BRESENNOL:**
Cynghorydd Bob Gunton (Maer)
Cynghorydd Nia Evans (Dirprwy Faer)
Cynghorwyr John Cadwaladr, Jo Checkley, Heilyn Williams, Dyfrig Siencyn, Peter Jones, Ray Peters, Liz Jones
Mr Rhys Williams – Clerc

**Hefyd yn Bresennol:** Gwenan Mai Roberts – Cyngor Gwynedd – Swyddog Trwyddedu

## C.81.2025-2026 SESIWN GYHOEDDUS

Dim byd i'w adrodd na'i drafod

## C.82.2025-2026.1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cynghorwyr Branwen Rhys Dafydd, Sion Edwards, Jessica John
Swyddog Ieuenctid Gwynedd

## C.83.2025-2026 CYFLWYNIAD

Gwenan Mai Roberts – Swyddog Trwyddedu, Cyngor Gwynedd
Cyflwynwyd: gweler isod:

Hoffwn gymeryd y cyfle i grynhoi rhai o'r prif bwyntiau mewn perthynas a 'r broses.
MANTEISION DAL TRWYDDED EIDDO AR GYFER DIGWYDDIADAU ACHLYSUROL YNG NGHANNOL Y DREF

- Trwydded er budd y gymuned - ar gyfer digwyddiadau cymunedol
- Wrth ddal y drwydded fe fyddai'r Cyngor Tref yn cadw rheolaeth ar pa ddigwyddiadau fydd yn cael defnyddio'r drwydded
- Fe fydd yr atodlen weithredol y drwydded yn gallu cynnwys amodau i gyfeirio dogfennaeth rheolaeth unrhyw digwyddiad i gyd i aelodau y Grwp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau – ac ni fydd disgwyl i aelodau'r Cyngor Tref wneud asesiad arbenigol ar addasrwydd trefniadau diogelwch digwyddiad
- Fe fydd disgwyliadau yn glir o ran unrhyw drefnydd digwyddiad fydd yn cael sêl bendith y Cyngor Tref i gynnal digwyddiad drwy ddefnyddio'r drwydded .
- Ni fydd rhaid cyflwyno a thalu am Rybudd Digwyddiad Dros Dro (TENS) pob tro mae angen cynnal digwyddiad
- Fe fydd costau yn gyfyngedig i gost cais am drwydded, a chost adnewyddu'r drwydded yn flynyddol.
- Mae capasiti nifer cynulleidfa a ganiateir i dan TEN yn gyfyngedig i 499 o bobl - gellir caniatáu llawer iawn mwy o dan drwydded eiddo.
- Mae mwy nag un aelod o'r Cyngor Tref yn meddu ar drwydded personol , felly gellir penodi Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig ( Designated Premises Supervisor neu DPS) o blith aelodau'r Cyngor er mwyn awdurdodi gwerthiant alcohol mewn unrhyw ddigwyddiad.

YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL

1. Y Cyngor Tref fel sefydliad fydd yn gyfreithiol gyfrifol am y drwydded ynghyd a'r DPS
2. Mae'n rhaid cael cydsyniad perchennog y tir cyn cyflwyno cais am drwydded eiddo ar dir cyhoeddus ( h.y. Cyngor Gwynedd )
3. Mae yn orfodol rhoi cyfyngiad sylweddol ar y nifer o ddigwyddiadau a ellir eu cynnal o dan y Drwydded yn flynyddol oherwydd ystyriaethau rheolau Cynllunio
4. Y trefnwyr digwyddiadau fydd yn gyfrifol am drefniadau pob digwyddiad, ac am gynhyrchu asesiadau risg , Cynllun Rheoli digwyddiad ac unrhyw ysiwriant atebolrwydd cyhoeddus ac agweddau iechyd a diogelwch y cyhoedd

TREFN A PHROSES YMGEISIO

- Fe fydd bosib cefnogi aelodau'r Cyngor i lenwi ffurflen gais ac cynghori ar amodau i'w cynnwys yn yr atodlen weithredol
- Fe fydd ymgynghoriad cyhoeddus o 28 diwrnod ar y cais, fydd angen ei hysbysebu drwy bapur newydd a rhybuddion cais wedi ei gosod yn y lleoliad.
- Fe fydd y drwydded yn cael ei chymeradwyo ar ddiwedd y cyfnod 28 diwrnod os na fydd sylwadau wedi eu derbyn
- Os dderbynnir sylwadau/gwrthwynebiadau – fe fydd y swyddog trwydded yn ystyried os yw rhain yn ddilys , ac angen eu cyfeirio i wrandawiad o'r Pwyllgor Trwyddedu.

Gobeithio fod hyn yn cwmpasu y prif bwyntiau – os oes unrhyw gwestiynau pellach – cofiwch gysylltu ar bob cyfri.

Diolch,

Gwenan

**Gwenan Mai Roberts**

## C.84.2025-2026 DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Cynghorydd Peter Jones – Cais grant yn ymwneud â Guides a Brownies Dolgellau

## C.85.2025-2026 CYMERADWYO'R COFNODION

Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2026

## C.86.2025-2026 MATERION YN CODI

**1. Cofeb Barhaol – Trychineb Penmaenpool**
Cyflwynwyd: Adroddiad diweddaru gan y Cynghorydd Nia Evans – gwaith yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun.
DYDDIAD Y SEREMONI GOFEB: **22 GORFFENNAF 2026** – gofynnir i bob cynghorydd nodi hyn yn eu dyddiaduron.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**4. Grant Ardal Ni – Blodau / Tybiau a Gweithgareddau**
Cyflwynwyd: Adroddiad diweddaru gan y Maer – gwaith yn mynd rhagddo'n dda, er yn

waith caled i wirfoddolwyr.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**5. Cyfleusterau CCTV / Cyfyngiadau Cyflymder**
Cyflwynwyd: Adborth gan y Cynghorydd Liz Jones ynghylch cwynion am oryrru yn ardal Llyndir, Ffordd Tywyn, Dolgellau
**Penderfynwyd:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn a'r Clerc i ddilyn hyn i fyny i ofyn am gyfyngiad cyflymder o **20 mya** yn yr ardal

**6. Costau Ffynnon Fair**
Cyflwynwyd: Amcangyfrif o tua **£2000 (heb TAW)** ar gyfer gwaith pellach o ganlyniad i ddifrod storm
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a symud ymlaen i awdurdodi'r gwaith

## C.87.2025-2026 ADRODDIADAU / MATERION ARIANNOL

Cyflwynwyd: Adroddiad Ariannol Mis 11, 2026 (Chwefror 2026)
**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau'r sefyllfa ariannol, a chymeradwyo gwariant o **£1793 + TAW** ar gyfer offer goleuadau Nadolig ychwanegol

## C.88.2025-2026 RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU

**Adroddiadau Ysgrifenedig gan Aelodau'r Cyngor Tref**

**Cynghorydd Bob Gunton (Maer) – Adroddiad Chwefror 2026**

- Casglwyd planwyr newydd o Wynstay Farmers a'u storio yn Ysgol Bro Idris
- Archebwyd 9 o blanwyr siâp defaid gan grefftwr lleol (pren llarwydd lleol)
- Newidiwyd clo swyddfeydd y llyfrgell
- Plannwyd cennin Pedr a chwe choeden newydd ger maes parcio Marian
- Cyfarfod â swyddogion ynghylch problem coed yn cwympo – cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu
- Cymryd rhan mewn fideo Gwynedd gyda phlant ysgol ac oedolion lleol

---

**Cynghorydd Nia Wyn Evans – Adroddiad Chwefror 2026**

- Cyfarfod â thîm adfywio Cyngor Gwynedd ynghylch ymestyn cyllid Lle'n y Dre hyd Mehefin 2026
- Cydweithio gyda Gaynor Davies ar drefniadau gwasanaeth coffa Penmaenpool

---

**Cynghorydd Jo Checkley – Adroddiad Chwefror 2026**
Yn bresennol mewn cyfarfodydd gan gynnwys:

- Partneriaeth Dolgellau
- Ymddiriedolwyr Marian Mawr
- Llyn y Dref

- Pwyllgor Cyllid
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bartneriaeth
- Trek 26
- Swyddog Grantiau
- Ysgol Gynradd Dolgellau
- Gŵyl Nadolig
- Hyfforddiant: y Cyngor Tref fel cyflogwr

---

## C.89.2025-2026 GOHEBIAETH / GRANTIAU

Derbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol:

- Guides, Brownies, Rainbows Dolgellau – **£440 (cymeradwywyd)**
- Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd – **£200 (cymeradwywyd)**

## C.90.2025-2026 ADRODDIADAU CYNGHORWYR GWYNEDD

**Cynghorydd Dyfrig Siencyn:**

- Cyfarfod llawn Cyngor Gwynedd ar **05.05.2026**
- Cynnig i gynyddu Treth y Cyngor o **5.17%**
- Cyfarfodydd i ddod:
    - Pwyllgor Ardal Meirionnydd
    - Cyfarfod Atal Llifogydd
    - Cyfarfodydd gyda staff rheng flaen

## C.91.2025-2026 MATERION CYNLLUNIO

- **NP5/57/1176K** – Gosod goleuadau allanol, Canolfan Dolfeurig – **Cefnogi**
- **NP5/57/LB406A a NP5/57/LB406B** – Trosi adeilad allanol yn lety ategol ar gyfer B&B ym Mryn Mair – ymgynghoriad yn parhau gyda'r Parc Cenedlaethol